Yr Is-Adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Further Education and Apprenticeships Division

Yr Adran Addysg a Sgiliau
Department for Education & Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: ATISN 10376

Dyddiad: 12 Mai 2016

Annwyl ,

**ATISN 10376 - Cais Rhyddid Gwybodaeth - Gwariant Addysg**

Diolch am eich cais a dderbyniwyd ar 14 Ebrill. Gofynnoch am y canlynol:

*- cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a ddarparwyd drwy gyfrwng (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; ac (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer bob blwyddyn ariannol o 2011/12 i 2015/16*

*- cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a ddarparwyd drwy gyfrwng (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; ac (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer bob blwyddyn ariannol o 2011/12 i 2015/16*

*- cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer rhaglenni prentisiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a ddarparwyd drwy gyfrwng (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; ac (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer bob blwyddyn ariannol o 2011/12 i 2015/16*

*- nifer y prentisiaid a ymgymerodd â'u fframwaith prentisiaeth drwy gyfrwng (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; ac (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer bob blwyddyn ariannol o 2011/12 i 2015/16*

Ar ôl chwilio drwy ein cofnodion papur ac electronig, nodaf nad yw'r holl wybodaeth y gofynnwch amdani yn cael ei dal gan Lywodraeth Cymru.

Yn benodol, nid yw'r wybodaeth mewn perthynas â'r tri phwynt cyntaf ar gael gan nad yw Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r wybodaeth i'r lefel honno. Fodd bynnag, er gwybodaeth, atodaf ddolen at gais Rhyddid Gwybodaeth diweddar lle y bu inni nodi'r llinellau gwariant.
http://gov.wales/docs/decisions/2016/education/160404atisn10257lttr.pdf

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Tŷ'r Afon ▪ Tŷ'r Afon
Ffordd Bedwas ▪ Bedwas Road
Bedwas ▪ Bedwas
Caerffili ▪ Caerphilly
CF83 8WT

Ffôn * Tel

Gwefan/Website: www.cymru.gov.uk

Nid oes dyraniad cyllideb penodol ar gyfer dysgu yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae'r dyraniad cyllideb cyfan ar gael i gyllido dysgu drwy ddewis gyfrwng y dysgwr.

Mae'r tablau a ganlyn yn dangos nifer y rhaglenni prentisiaethau yn ystod y cyfnod y gofynnwyd yn ei gylch. Nodwch mai fesul blwyddyn academaidd y mae'r ffigurau (hynny yw, 1 Awst hyd 31 Gorffennaf). Nid yw'r data ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 ar gael eto.

Daw'r data o gronfa ddata ôl-16 Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

I weithgaredd dysgu gael ei gyfrif fel un cyfrwng Cymraeg, rhaid i'r holl asesiadau sydd i'w cael yn y gweithgaredd gael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

I weithgaredd dysgu gael ei gyfrif fel un dwyieithog, rhaid i 50% o'r asesiadau sydd i'w cael yn y gweithgaredd gael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**2011/12**

| Lefel y Rhaglen | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog, dim gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd Cymraeg, dim gweithgaredd dwyieithog (d) (g) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog ac un gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog neu un gweithgaredd Cymraeg (e) | Cyflawnwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg (f) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth Sylfaen | 795 | 80 | 75 | 955 | 19,260 | 20,215 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | 470 | 40 | 10 | 515 | 15,595 | 16,110 |
| Prentisiaeth Uwch | 30 | * | 0 | 35 | 1,310 | 1,345 |
| Cyfanswm | 1,295 | 120 | 85 | 1,505 | 36,165 | 37,665 |

**2012/13**

| Lefel y Rhaglen | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog, dim gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd Cymraeg, dim gweithgaredd dwyieithog (d) (g) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog ac un gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog neu un gweithgaredd Cymraeg (e) | Cyflawnwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg (f) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth Sylfaen | 1,035 | 45 | 40 | 1,120 | 23,995 | 25,120 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | 635 | 30 | 10 | 675 | 18,610 | 19,285 |
| Prentisiaeth Uwch | 25 | 15 | 0 | 40 | 2,690 | 2,730 |
| Cyfanswm | 1,695 | 90 | 50 | 1,835 | 45,300 | 47,135 |

**2013/14**

| Lefel y Rhaglen | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog, dim gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd Cymraeg, dim gweithgaredd dwyieithog (d) (g) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog ac un gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog neu un gweithgaredd Cymraeg (e) | Cyflawnwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg (f) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth | 1,175 | 30 | 5 | 1,210 | 26,320 | 27,530 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen | | | | | | |
| Prentisiaeth Lefel 3 | 850 | 30 | 5 | 880 | 20,545 | 21,425 |
| Prentisiaeth Uwch | 55 | 65 | 0 | 120 | 5,310 | 5,430 |
| Cyfanswm | 2,075 | 120 | 15 | 2,210 | 52,175 | 54,385 |

**2014/15**

| Lefel y Rhaglen | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog, dim gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd Cymraeg, dim gweithgaredd dwyieithog (d) (g) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog ac un gweithgaredd Cymraeg (d) | O leiaf un gweithgaredd dwyieithog neu un gweithgaredd Cymraeg (e) | Cyflawnwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg (f) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth Sylfaen | 1,095 | 25 | * | 1,125 | 20,650 | 21,775 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | 1,095 | 25 | 10 | 1,125 | 17,500 | 18,625 |
| Prentisiaeth Uwch | 115 | 90 | 15 | 220 | 7,725 | 7,945 |
| Cyfanswm | 2,300 | 140 | 25 | 2,465 | 45,875 | 48,345 |

Nodiadau

(a) Cyfrifir cyfrwng y ddarpariaeth drwy ddefnyddio gwerthoedd LA26 (math o ddysgu cyfrwng Cymraeg) a'r teitl nod dysgu a gofnodwyd, a aseinir ar lefel y gweithgaredd.
(b) Mae gan bob rhaglen ddysgu prentisiaeth un gweithgaredd dysgu neu fwy wedi'i aseinio iddi, ac mae gan bob un o'r rheiny werthoedd unigol ar gyfer LA26 a'r teitl nod dysgu. Nid oes gan y rhaglenni prentisiaeth eu hunain gyfrwng darparu penodol wedi'i aseinio iddynt.
(c) Cyflwynwyd newidiadau i'r codau LA26 yn 2014/15, a gwnaed peth defnydd cynnar o'r codau newydd hyn ar gyfer 2013/14.
(d) Mae'r rhifau yn y golofn hon yn annibynnol ar ei gilydd, a'r cyfansymiau ar gyfer rhaglenni â rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog neu rywfaint o ddarpariaeth Gymraeg yw cyfansymiau'r golofn gyntaf a'r drydedd golofn, neu'r ail a'r drydedd, yn ôl eu trefn.
(e) Mae'r golofn hon yn rhoi cyfanswm y tair colofn flaenorol.
(f) Mae'r golofn hon yn cynnwys yr holl raglenni nad ydynt yn cynnwys darpariaeth Gymraeg na dwyieithog. Yn ogystal, cynhwysir unrhyw weithgareddau y'u diffinnir fel rhai sydd ag elfennau o Gymraeg (LA26, codau B2 a B3, a gyflwynwyd yn 2014/15) o fewn y golofn cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn wahanol i'r diffiniad a ddefnyddiwyd yn y ffigurau cyhoeddedig ar gyfer 2014/15, lle cyfrwyd gweithgareddau ag elfennau o Gymraeg fel rhai dwyieithog.
(g) Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r lluosrif 5 agosaf. Mae gwerthoedd nad ydynt yn sero, ond sy'n llai na 5 wedi'u hatal a'u dynodi gan seren fach.

O 2014-15 ymlaen, mae meysydd cofnodi ychwanegol wedi'u defnyddio i gofnodi gweithgaredd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r asesiadau ffurfiol yn cael eu cyflawni yn Saesneg. Yn ystod 2014-15 mae gan y canlynol rai elfennau o Gymraeg ynddynt:

880 ar lefel prentisiaeth sylfaen
990 ar lefel prentisiaeth
325 ar lefel prentisiaeth uwch

Sy'n gyfanswm o 2,195 o raglenni gydag elfennau o Gymraeg, yn ychwanegol at y rhaglenni a gyfrwyd fel rhai Cymraeg neu ddwyieithog yn y tabl uchod.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir